



Sut mae'ch plentyn yn ad-dalu ei fenthyciad 2017/18

Pan fydd eich plentyn yn gorffen neu'n gadael ei gwrs, bydd angen talu unrhyw fenthyciadau yn ôl – ond nid nes bydd ei incwm dros y trothwy ad-dalu o £21,000 y flwyddyn, £1,750 y mis neu £404 yr wythnos.

Faint fydd yn ei ad-dalu?

Bydd y swm fydd yn ei ad-dalu pob mis yn ddibynnol ar ei incwm ac nid faint a fenthycwyd. Bydd yn ad-dalu 9% o unrhyw incwm dros y trothwy presennol. Os yw ei incwm yn syrthio'n is na hyn, bydd ei ad-daliadau yn stopio'n awtomatig.

Mae'r tabl isod yn dangos rhai enghreifftiau o faint fydd y symiau ad-dalu misol disgwylidig.

Incwm pob blwyddyn cyn treth	Swm i'w ad-dalu pob mis
£21,000	£0
£22,000	£7
£23,500	£18
£25,000	£29
£27,000	£45
£30,000	£67



Bydd unrhyw fenthyciad sydd heb ei dalu yn ôl 30 mlynedd wedi i'ch plentyn gychwyn ad-dalu yn cael ei ganslo.

Sut fydd yn ad-dalu?

Cesglir ad-daliadau trwy system dreth y Deyrnas Unedig, naill ai:

- trwy TWE, ble mae taliadau yn cael eu didynnu gan y cyflogwr yn yr un modd â Threth Incwm neu Yswiriant Gwladol; neu
- trwy'r broses hunanasesiad os yw'n hunangyflogedig.

Os yw eich plentyn yn byw neu'n gweithio dramor pan fydd yn gorffen ei gwrs bydd ei ad-daliadau misol yn seiliedig ar y trothwy ad-dalu ar gyfer y wlad mae ynddi a bydd yn ad-dalu'n uniongyrchol i ni. Dylai'r myfyriwr gysylltu â ni cyn gadael y Deyrnas Unedig er mwyn i ni allu gwneud trefniadau i ddechrau ad-dalu.

Gall eich plentyn wneud taliadau gwirfoddol ar unrhyw adeg.



A oes raid iddo dalu llog?

Oes. Mae faint o log a godir yn seiliedig ar y gyfradd chwyddiant (Mynegai Prisiau Manwerthu [RPI]) a bydd yn amrywio yn ddibynnol ar amgylchiadau'ch plentyn.

	Cyfradd llog
Tra'i fod yn astudio hyd at y mis Ebrill wedi gorffen neu adael y cwrs	Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) +3%
O'r mis Ebrill wedi i'r myfyriwr adael neu orffen ei gwrs	Bydd llog yn seiliedig ar ei incwm: £21,000 neu lai = RPI Rhwyng £21,000 a £41,000 = RPI a hyd at 3%, yn ddibynnol ar incwm £41,000 neu fwy = RPI a 3%

Codir llog ar fenthyciad myfyriwr o'r diwrnod y gwneir y taliad cyntaf nes bydd ei fenthyciad wedi ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo, pa bynnag un sydd gyntaf. Bydd unrhyw fenthyciad sydd heb ei dalu yn ôl 30 mlynedd wedi i'r myfyriwr fod angen ad-dalu yn cael ei ganslo.

Ceir rhagor o wybodaeth ar www.slc.co.uk/ad-dalu

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y DU.

www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/ymarferwyr

 [facebook.com/SFWales](https://www.facebook.com/SFWales)

 twitter.com/SF_Wales

 [youtube.com/SFWFILM](https://www.youtube.com/SFWFILM)

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

